**Polisi Absenoldeb Gofalwr**

**Dyddiad y Polisi: Mai 2025**

**Adolygiad: Mai 2026**

1.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob gweithiwr. Mae hyn yn cynnwys staff ar gontractau llawn amser, rhan amser, dros dro a thymor penodol. Nid yw'n berthnasol i weithwyr asiantaeth nac i gontractwyr hunangyflogedig.

1.2 Mae'r polisi hwn yn esbonio:

- Beth rydym yn ei olygu wrth absenoldeb gofalwr
- Eich hawliau ynghylch absenoldeb gofalwr
- Eich hawl a'ch cymhwysedd
- Y weithdrefn ar gyfer cymryd absenoldeb gofalwr

2 **Beth yw Absenoldeb Gofalwr?**

Mae absenoldeb gofalwr yn hawl i gael amser i ffwrdd heb dâl i ddarparu neu drefnu gofal i ddibynnydd sydd ag angen gofal tymor hir, neu sy'n dibynnu arnoch yn rhesymol am ofal.

Mae gan weithwyr cymwys yr hawl i gymryd uchafswm o wythnos o absenoldeb gofalwr heb dâl mewn unrhyw gyfnod o 12 mis i ddarparu neu drefnu gofal i ddibynnydd sydd ag angen gofal tymor hir.

Mae absenoldeb gofalwr wedi'i gyfyngu i uchafswm o wythnos o absenoldeb heb dâl ym mhob cyfnod o 12 mis, waeth faint o ddibynyddion sydd gennych.

Gallwch gymryd yr wythnos hon o absenoldeb gofalwr fel bloc parhaus, neu fel diwrnodau llawn neu hanner diwrnodau unigol o fewn 12 mis.

3 **Cymhwysedd**

I fod yn gymwys i gael absenoldeb gofalwr, rhaid eich bod yn darparu neu'n trefnu gofal i ddibynnydd sydd ag angen gofal tymor hir, neu i rywun sy'n dibynnu arnoch yn rhesymol am ofal. Gall 'dibynnydd' olygu rhiant, priod, partner sifil, plentyn, neu rywun sy'n byw yn yr un aelwyd â chi. Nid yw'n cynnwys tenantiaid, lletywyr neu fwrddwyr, nac unrhyw un rydych yn eu cyflogi.

Mae 'angen gofal tymor hir' pan fo gan y dibynnydd:

- salwch neu anaf corfforol neu feddyliol sy'n golygu eu bod angen neu'n debygol o fod angen gofal am fwy na thri mis
- cyflwr neu salwch sy'n cael ei ystyried yn anabledd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- anghenion gofal sy'n gysylltiedig â henaint.

4 **How to take carer's leave**

Os ydych yn bwriadu cymryd absenoldeb gofalwr, mae'n rhaid rhoi rhybudd sy'n ddwbl hyd yr absenoldeb rydych yn gofyn amdano.

Dylech roi gwybod i'ch rheolwr llinell yn ysgrifenedig eich bod yn bwriadu cymryd absenoldeb gofalwr.

https://www.gov.uk/carers-leave.

5 **Diogelu Data**

Wrth reoli absenoldeb gofalwr a cheisiadau, rydym yn prosesu data personol a gesglir o dan ein polisi diogelu data. Rydym yn storio data yn ddiogel, a dim ond staff sy'n rheoli eich absenoldeb a'ch tâl fydd â mynediad i'r wybodaeth hon.
I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch ein polisi diogelu data.